YSGOL EIFIONYDD

Bwletin
14:01:21

Annwyl rieni/warchodwyr,

Rydym wedi ymestyn y ddarpariaeth **ffrydio byw** ymhellach. Gweler yr amserlen isod. Pwysleisiaf eto taw cefnogi'r gwersi ar Google Classroom yw pwrpas y sesiynau.

Mae'r sesiynau ffrydio byw gan athrawon yn cael eu cynnig trwy Google Meets gyda'r cysylltiad ar gael o fewn dosbarth Hwb Google Classroom y disgybl. Dylid defnyddio'r porwr **Chrome i fynd mewn i Hwb** er mwyn sicrhau fod y cyswllt yn gweithio

Rheolau i'w ddilyn wrth ffrydio:

- Pawb i wisgo'n addas – dim pyjamas os gwelwch yn dda!
- Pawb i ymddwyn yn barchus.
- Y disgybl yn unig, ni ddylai aelodau eraill o'r teulu fod yn rhan o'r sesiwn.
- Os yn defnyddio camera, dylai disgyblion geisio cuddio'r cefndir gydag un o'r effeithiau cefndir o fewn Teams neu Google Meets os yn bosib.
- Pe bai unrhyw gamymddwyn, fe fyddwn yn gwahardd y disgybl o'r sesiwn ac yn delio gyda'r mater fel unrhyw gamymddwyn arall yn yr ysgol.
- Dylid cofio fod "chat" yn cael ei recordio a dylai y disgybl felly ymddwyn yn briodol.

Yn naturiol mae'r holl sesiynau'r pwnc Cymraeg yn y Gymraeg a'r pwnc Saesneg yn y Saesneg.

Am resymau diogelwch rydym yn recordio'r cyfarfodydd ffrydio byw.

Mae'r sesiynau tiwtorial bugeiliol boreol yn parhau am 9:00 bob bore ac yn cael eu gosod trwy Microsoft Teams (o fewn Hwb). Mae'r sesiynau yma

YSGOL EIFIONYDD

Bulletin
14:01:21

Dear parents / guardians,

*We have further expanded the school's offer of **live streaming**. See timetable below. The purpose of the streaming session is to support the lessons placed on Google Classroom.*

*Live streaming sessions by teachers are offered through Google Meets with links available within the pupil's Hwb Google Classroom. To ensure the connection works please use the **Chrome browser to enter Hwb.***

Rules to follow when streaming:

- *Everybody must dress appropriately – no pyjamas please!*
- *Everybody to behave in a respectful manner.*
- *Only the pupil, no family members to be part of the session.*
- *If using a camera, pupils should try and hide the background using one of the background effects on Teams or Google Meets if possible.*
- *Any case of misbehaviour will lead to the pupil being excluded from the rest of the session, and the matter will be dealt with in the same way as any other behaviour issue at school.*
- *Remember that the "chat" option is recorded and therefore the pupil needs to act appropriately.*

Naturally, all Welsh subject sessions will be in Welsh and all English subject sessions will be in English.

For safety reasons we record the live streaming events.

The morning pastoral tutorials at 9:00 will continue to be presented via Microsoft Teams (within Hwb). These sessions are important and prepare pupils for a day of schoolwork.

yn bwysig ac yn paratoi disgyblion ar gyfer diwrnod o waith. Gall sicrhau digon o offer ffrydio fod yn her i'r rhan fwyaf o deuluoedd. Nodaf felly yn arbennig o ran ffrydio byw fod **ffonau clyfar yn opsiwn**. Gellir lawr lwytho appiau Google Classroom, Google Meets a Microsoft Teams am ddim. Gosodir gwaith Google Classroom i ddisgyblion gan ddilyn amserlen arferol y disgybl. Mae croeso i'r disgybl geisio dilyn yr amserlen hon. Fodd bynnag mae yna hyblygrwydd o ran pryd yn union yn ystod y diwrnod y mae'n gyfleus i'r disgybl dalu sylw i'r gwaith. Dylid cysylltu â'r ysgol os oes problemau mynediad i safle Hwb trwy e-bost: cyffredinol@eifionydd.gwynedd.sch.uk neu ar rif ffôn yr ysgol 01766 512114.	*Offering enough equipment for streaming can be challenging for any family.* ***Smart phones are an option*** *particularly for live streaming. Google Classroom, Google Meets and Microsoft Teams apps can be down loaded for free.* *Work placed in Google Classrooms will follow the pupil's usual timetable. The pupil is welcome to follow this timetable. However, there is some flexibility regarding exactly when during the day it is convenient for the pupil to concentrate on the work.* *The school should be contacted if there are problems accessing the Hwb site by email: cyffredinol@eifionydd.gwynedd.sch.uk or on the school telephone number 01766 512114.*
Gofal Plant Mae darpariaeth gofal plant ar gael i weithwyr allweddol. Mae'r ddarpariaeth yma ar gael i ddisgyblion blwyddyn 7 ac 8 yn unig a dylent sicrhau fod ganddynt becyn bwyd. Bydd yr ysgol ar agor o 8:55 tan 3:30 i ddisgyblion sydd gyda rhieni/gofalwyr sy'n weithwyr allweddol. Bydd y gefnogaeth yma'n cael ei ddarparu yn ystod y cyfnod ansicr yma. Os ydych angen manteisio ar y gwasanaeth yma cysylltwch trwy e-bost: cyffredinol@eifionydd.gwynedd.sch.uk neu ar rif ffôn yr ysgol 01766 512114.	***Child Care*** *Childcare is available for keyworkers through the school. The care is only available to years 7 and 8 pupils and they need to ensure they have a packed lunch.* *The school will be open from 8:55 till 3:30 for pupils who have parents/guardians who are keyworkers. This support will be provided during this uncertain period. If you wish to receive this service please send an e-mail to: cyffredinol@eifionydd.gwynedd.sch.uk or phone the school 01766 512114.*
Cadw'ch yn iach a ddiogel, **Dewi Rh Bowen**	***Keep healthy and safe,*** ***Dewi Rh Bowen***